# Sesiwn Gwrandawiad 6

# YR AMGYLCHEDD NATURIOL AC ADEILEDIG

## 9.30 yb, Dydd Mercher 14 Medi 2016

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn**

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Cynhyrchwyd y Datganiad hwn gan Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd i nodi eu hymateb i'r materion a'r pynciau a godwyd gan yr Arolygydd ar gyfer y Gwrandawiad am yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.

Mae'r Datganiad hwn yn ymwneud ag elfennau o'r Cynllun a godwyd gan yr Arolygydd fel materion i'w trafod. Lle bo'n briodol mae'r Datganiad yn edrych ar ac yn croesgyfeirio at y prif ffynonellau o wybodaeth a ddefnyddiwyd i baratoi'r Cynllun megis canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus, yr Asesiad Cynaliadwyedd, y dogfennau cefndir a Phapurau Testun ategol. Rhoddir rhifau cyfeirnod y dogefnnau lle y bo'n briodol.

At ddibenion eglurder o fewn y datganiad hwn mae unrhyw Newidiadau Materion sy'n Codi i'r Cynllun Adnau a/neu Newid â Ffocws i'r Cynllun, wedi'i ddangos mewn print trwm **Coch** ac wedi'i thanlinellu. Dangosir unrhyw Newid â Ffocws i'r Cynllun Adnau mewn print **Trwm** wedi'i danlinellu.

## Agenda Materion a Phynciau

| **1.** | **Cyflwyniad** |
|---|---|

| **2.** | **Materion Gweithdrefnol** |
|---|---|

| **1.** | **A yw Polisi PS16 a Thabl 23 yn darparu fframwaith polisi strategol priodol i ystyried cynigion datblygu ac amddiffyn a gwarchod yr amgylchedd naturiol, ac yn enwedig Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)?** |
|---|---|

1.1 **Ymateb** - Ydy. Mae'r Cynghorau'n ystyried fod y Cynllun (yn amodol ar y Newidiadau â Ffocws) yn darparu fframwaith polisi strategol digonol er mwyn ystyried cynigion datblygu a chadwraeth yr amgylchedd naturiol yn ardal y Cynllun, yn cynnwys yr AHNE'au. Mae'r Cynghorau yn credu bod Tabl 23 a Pholisi PS16 yn amlinellu'n ddigonol y polisi cynllunio strategol, yn darparu'r cyd-destun angenrheidiol ar gyfer cyflwyno gweledigaeth ac amcanion y Cynllun ac yn unol â pholisi a deddfwriaeth genedlaethol.

1.2 Fodd bynnag, wrth adlewyrchu, mae'r Cynghorau'n cydnabod y gellid ystyried y defnydd a wneir o'r gair 'safle' ym maen prawf 2 Polisi PS16 fel rhywbeth amherthnasol i ardaloedd dynodedig mawr megis AHNE neu Barciau Cenedlaethol. Nid dyma oedd bwriad y Cynghorau. Os yw'r Arolygydd o'r farn bod hynny'n dderbyniol ac yn briodol, mae'r Cynghorau felly'n dymuno cynnig yr addasiad a ganlyn i bolisi PS16, sydd hefyd wedi'i gynnwys yn Natganiad y Cyngor ar gyfer Sesiwn 9 Wylfa Newydd.

*"Gwarchod a gwella **dynodiadau** ~~safleoedd~~ o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a ble'n berthnasol eu gosodiad yn unol â Pholisi Cenedlaethol".*

1.3 Yn ychwanegol, mae trafodaethau pellach â Horizon Nuclear Power wedi datgelu'r angen i addasu Polisi PS 16 ar yr amgylchedd naturiol, er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu polisi cynllunio cenedlaethol a deddfwriaeth yn well. Mae manylion y diwygiadau posib yn cael ei gynnwys yn y Datganiad o Dir Cyffredin rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Phŵer Niwclear Horizon a fydd yn cael ei drafod yn Sesiwn Gwrandawiad 9: Wylfa Newydd.

1.4 Yn ogystal, mae'r Cynghorau'n dymuno tynnu sylw at y pwyslais cynyddol ar AHNE yn y Cynllun a gynigir drwy'r Newidiadau â Ffocws NF28 (h.y. polisi newydd sy'n berthnasol i Gynllun Rheoli'r AHNE a NF85 (h.y. sy'n cyflwyno brawddeg newydd ar ddiwedd paragraff 7.5.13 o eglurhad i Bolisi AMG2 sy'n ymwneud â'r angen i ystyried y Cynllun Rheoli AHNE perthnasol).

| **2.** | **A yw'r amddiffyniad a roddir i'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) a restrir yn yr esboniad i Bolisi AMG1 wedi'i ategu gan dystiolaeth gadarn?** |
|---|---|

| **2a** | **A yw'r Cynllun yn gyson â chanfyddiadau ac argymhellion Adolygiad LUC o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd ac Ynys Môn?** |
|---|---|

2.1 Ydy. Mae'r Cynghorau'n credu bod Polisi AMG1 yn gyson â chanfyddiadau ac argymhellion Adolygiad LUC o ATA yng Ngwynedd a Môn. Datgan polisi cynllunio cenedlaethol ym mharagraff 5.3.11 y dylai Ardaloedd Tirwedd Arbennig gael eu seilio yn gadarn ar asesiad gwyddonol ffurfiol o werth y safle o ran cadwraeth natur, tirwedd neu ddaeareg. Felly, yn unol â'r arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol hwn fe gomisiynodd y Cynghorau LUC i adolygu'r ATA cyfredol yn erbyn methodoleg gyhoeddedig. Roedd y dull a ddefnyddiwyd i ymdrin â'r adolygiad ATA yng Ngwynedd a Môn yn dilyn canllawiau LANDMAP (*LANDMAP and Special Landscape Areas: LANDMAP Information Guidance Note - June* 2008) a osodwyd allan gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (nawr Cyfoeth Naturiol Cymru) wrth sicrhau ar yr un pryd bod y dull yn gadarn ac yn gwneud y defnydd gorau o'r dystiolaeth leol sydd ar gael a'r ddealltwriaeth gyda chynllunwyr y Cyngor, pensaer y dirwedd a phobl broffesiynol tirwedd LUC. Yn seiliedig ar y dull hwn, mae'r Cynllun wedi adnabod 16 ardal sy'n cyfiawnhau cael eu dynodi fel ATA. Mae'r rhain yn cael eu henwi yn yr eglurhad i Bolisi AMG1 ac maent yn cael eu dangos ar y Mapiau Cyfyngiadau.

| **2b** | **A yw Polisi AMG1 yn darparu fframwaith polisi priodol ar gyfer ystyried cynigion datblygu yn yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig neu gynigion datblygu sydd â chysylltiad agos â'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig?** |
|---|---|

2.2 **Ymateb** - Ydy. Mae'r Cynghorau'n ystyried bod Polisi AMG1 (yn amodol ar Newid â Ffocws NF83) yn darparu'r fframwaith priodol er mwyn ystyried datblygiad o fewn ATA neu'n agos atynt. Mae'r Cynghorau'n cydnabod y gallai datblygiadau yn agos at ATA gael effaith andwyol ar y rhinweddau arbennig sydd wedi golygu bod y dirwedd wedi'i chynnwys yn yr ATA, ac felly maent wedi ceisio sicrhau bod cynigion sy'n 'union du allan' a allai gael effaith andwyol arwyddocaol ar yr ATA yn derbyn sylw gan y trydydd paragraff ym Mholisi AMG1. Fodd bynnag, wrth adlewyrchu ar hyn, mae'r Cynghorau'n cydnabod bod defnyddio'r term 'union du allan' yn methu â chydnabod y gallai datblygiadau sy'n gymharol agos at yr ATA ond nad ydynt yn uniongyrchol y tu allan gael effaith andwyol sylweddol. O ganlyniad, ac os yw'r Arolygydd o'r farn bod hynny'n dderbyniol a phriodol, byddai'r Cygnor yn hoffi cynnig yr addasiad a ganlyn i drydydd paragraff polisi AMG1 (i dderbyn sylw trwy Newidiadau Materion sy'n Codi):

"Lle mae'n rhesymol i gredu y gall cynigion arwain i ardrawiad andwyol arwyddocaol ar ATA (un ai o fewn neu ~~union du allan iddo~~ **mewn perthynas agos ag ef**) bydd y Cyngor yn disgwyl Asesiad Ardrawiad Tirwedd a Gweledol er mwyn gallu ystyried ardrawiad y datblygiad ar yr ardal ddynodedig ymhellach."

| 3c | **A yw'r ymagwedd at Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn gyson â'r polisi cenedlaethol ar ddynodiadau tirwedd lleol (dynodiadau Anstatudol)?** |
|---|---|

2.3 **Ymateb** - Mae'r Cynghorau'n ystyried bod eu dull o ymdrin â'r ATA yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol ac yn enwedig â pharagraff 5.3.11 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016). Fel y nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn 3a, mae'r Cynghorau wedi sicrhau bod yr ATA sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun yn seiliedig ar fethodoleg asesu gadarn a manwl. Mae'r Cynghorau'n ystyried bod Adolygiad LUC o ATA yng Ngwynedd a Môn a'r dynodiadau ATA dilynol yn y CDLl yn bodloni'r gofynion a nodir ym mharagraff 5.3.11 Polisi Cynllunio Cymru.

| 3. | **A yw Polisi AMG2 yn egluro ei nodau a'i amcanion yn ddigonol ar gyfer amddiffyn a gwarchod cymeriad y dirwedd a ddiffiniwyd o fewn Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACT)?** |
|---|---|

| 3d | **A yw'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd y cyfeirir atynt ym Mholisi AMG2 wedi'u hategu gan dystiolaeth gadarn a chyfredol?** |
|---|---|

3.1 **Ymateb** - Ydy. Mae'r AGD wedi'u dynodi fel rhan o'r 'Strategaethau Tirwedd' ar wahân ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1999. Datblygwyd y strategaethau gan ddefnyddio methodoleg LANDMAP Cyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n sefydlu dull systematig o gofnodi ac adfer gwybodaeth ynghylch rhinweddau penodol tirweddau. Mewn ymateb i newidiadau a wnaed gan CCGC i fethodoleg LANDMAP yn 2003 (h.y. cyflwyno rhaglen sicrhau ansawdd i wirio astudiaethau LANDMAP), penododd y Cynghorau ymgynghorwyr arbenigol i gynnal adolygiad o'r ACD a nodwyd yn y Strategaethau Tirwedd gwreiddiol. Cyhoeddwyd yr adolygiad ACD ar gyfer Ynys Môn (a baratowyd gan TACP) yn 2011, tra cyhoeddwyd adolygiad Gwynedd (a baratowyd gan LUC) yn 2012. Mae copïau o'r ddau gyhoeddiad wedi bod ar gael fel Dogfennau Cefndir i'r CDLl (DC.010 a DC.011). Nid yw'r Cynghorau yn ymwybodol o unrhyw addasiadau arwyddocaol i'r sail tystiolaeth a ddarparwyd gan LANDMAP / Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a fyddai angen adolygu ffiniau'r ACD neu'r strategaethau. Mae'r Cynghorau'n ystyried bod eu dull o ymdrin â'r ACD yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016), yn enwedig y gofynion a nodir ym mharagraff 5.3.11 PCC.

| 4. | **A yw Polisi AMG3 yn darparu fframwaith polisi priodol ar gyfer ystyried cynigion datblygu ar yr arfordir, gan gynnwys yr Arfordir Treftadaeth? A yw'r Polisi'n cydymffurfio â'r polisi cynllunio cenedlaethol?** |
|---|---|

4.1 **Ymateb** - Ydy. Mae'r Cynghorau'n ystyried bod meini prawf 1-5 Polisi AMG3 yn darparu fframwaith polisi priodol i ystyried cynigion datblygu ar yr arfordir, yn cynnwys yr Arfordir Treftadaeth. Yn y cyswllt hwn, mae'r Cynghorau'n ystyried bod y Polisi'n gyson â'r canllawiau a amlinellir yn Adran 5.7 PCC (Argraffiad 8, Ionawr 2016).

4.2 Er mai dynodiadau anstatudol yw Arfordir Treftadaeth ac nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar statws yr ardal mewn termau cynllunio, wrth adlewyrchu ar hyn mae'r Cynghorau'n ystyried y gallai geiriad paragraff 7.5.17 dynnu sylw at yr angen i ystyried y nodweddion a gyfrannodd at ddyrannu'r fath ardaloedd (h.y. y rhannau gorau o'r arfordir sydd heb ei ddatblygu) wrth wneud penderfyniadau ar reoli datblygiad yn unol â pharagraff 5.7.4 PCC. O ganlyniad, ac os yw'r Arolygydd o'r farn bod hynny'n dderbyniol a phriodol, byddai'r Cyngor yn hoffi cynnig yr addasiad a ganlyn i baragraff 7.5.17 ym Mholisi AMG3 (i dderbyn sylw trwy Newidiadau Materion sy'n Codi):

"O fewn yr ardaloedd o'r arfordir **sydd wedi eu dynodi** ~~a warchodir~~ fel Arfordir Treftadaeth bydd yna bwyslais **ar ddiogelu'r nodweddion arbennig a gyfrannodd at eu dynodiad trwy** ~~yn cael ei roddi ar~~ warchod a hyrwyddo harddwch naturiol yr arfordir, hwyluso mynediad a gwerthfawrogiad y cyhoedd ohono, cynnal ansawdd amgylcheddol y dŵr sydd er ei lannau a hyrwyddo mathau cynaliadwy o ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd."

## 5. A yw'r Cynllun yn gwarchod yr amgylchedd naturiol yn effeithiol? A yw'r ymagwedd a ddefnyddir yn adlewyrchu arwyddocâd cymharol dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol yn gyson â phennod 5 Polisi Cynllunio Cymru?

5.1 **Ymateb** - Ydy. Am y rhesymau a amlinellir yn ymateb y Cynghorau i gwestiynau 1, 2, 3, 4 a 6 y Datganiad Gwrandawiad hwn, mae'r Cynghorau'n hyderus bod polisïau'r Cynllun (yn amodol i'r Newidiadau â Ffocws (NF80-86 ynghyd â'r addasiad pellach a awgrymwyd yn ymateb y Cynghorau i gwestiynau 2 a 4)), sydd wedi'i gefnogi gan bolisi cynllunio cenedlaethol yn PCC a deddfwriaeth y DU/Ewrop, yn darparu lefel effeithiol o warchodaeth i'r amgylchedd naturiol.

5.2 Mae'r Cynghorau'n fodlon bod y dull maent wedi'i ddefnyddio yn gwahaniaethu rhwng yr arwyddocâd a roddir i ddynodiadau rhyngwladol/cenedlaethol a lleol a'i fod yn gyson â'r cyngor ym Mhennod 5 PCC. Gwarchodir dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol mewn deddfwriaeth a thrwy bolisi cynllunio cenedlaethol ac nid oes angen ailadrodd y fath warchodaeth yn y Cynllun. Fodd bynnag, mae Polisi PS16 yn nodi'r dull trosfwaol a ddefnyddir tuag at yr amgylchedd naturiol a maen prawf 3 yn benodol i'r angen i ystyried polisi cenedlaethol. Yna, mae'r Cynllun, ar ffurf tabl, yn cyfarwyddo'r darllenydd at y polisi a'r ddeddfwriaeth genedlaethol berthnasol. Felly, penderfynir ar unrhyw gynigion datblygu sy'n debygol o effeithio ar ddynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol yn unol â Pholisïau PCYFF 1, PS 16 a pholisi cenedlaethol fel sydd wedi'i nodi yn PCC a'r NCT perthnasol, e.e. NCT Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009), NCT Cynllunio Arfordirol (1998).

5.3 Mae polisïau AMG1, AMG2 ac AMG5 yn ymwneud â dynodiadau lleol, tra mae Polisi AMG4 yn ymdrin yn benodol â rhywogaethau gwarchodedig y gellir dod o hyd iddynt neu beidio mewn safleoedd dynodedig rhyngwladol, cenedlaethol neu leol, ond sy'n parhau i fod yn safleoedd bioamrywiaeth pwysig. Mae'r Cynghorau'n fodlon bod y polisïau hyn (yn amodol ar y Newidiadau â Ffocws sydd wedi'u hawgrymu) yn gyson â chyngor polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â dynodiadau anstatudol yn PCC, yn enwedig ym mharagraffau 5.3.11, 5.4.4 a 5.4.5. Mae Polisi AMG3 y CDLl yn

ymdrin â datblygiadau ar hyd yr arfordir ac unwaith eto mae'r Cynghorau'n hyderus bod y polisi hwn yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol fel y nodir yn adran 5.7 PCC.

| | |
|---|---|
| **6.** | **A yw'r Cynllun, trwy Bolisïau AMG4 ac AMG5, yn darparu lefel briodol o warchodaeth i safleoedd statudol ac anstatudol sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth leol a chadwraeth natur?** |

6.1 **Ymateb -** Ydy. Gwarchodir safleoedd penodol dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd neu Ddeddfau'r Senedd ac fe'u cefnogir gan bolisi cynllunio cenedlaethol a gwneir cyfeiriadau priodol atynt ym Mholisïau PS16 a Thabl 23 y Cynllun.

6.2 Mae Polisi AMG4 yn rhoi gwarchodaeth i rywogaethau sydd wedi'u hadnabod fel blaenoriaethau yn y DU a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, a ellir dod o hyd iddynt neu beidio mewn safleoedd dynodedig statudol neu anstatudol. Mae Polisi AMG5 yn ymwneud â gwarchod safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol. Mae'r Cynghorau'n fodlon bod polisi AMG4 (yn amodol i Newid â Ffocws NF 86) a Pholisi AMG5 ynghyd â pholisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru, NCT 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009) a deddfwriaeth y DU/Ewrop yn darparu lefel briodol o warchodaeth ac mae'n gyson ag adran 5.4 PCC.

| | |
|---|---|
| **7.** | **A yw'r Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid ac a yw'n cynnwys dulliau eglur a phriodol ar gyfer gweithredu a monitro amcanion y Cynllun?** |

7.1 **Ymateb**: Mae'r Cynghorau'n fodlon bod y Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Bydd y Cynllun yn cael ei danategu gan Fframwaith Monitro cadarn fydd yn cael ei ddefnyddio i fonitro gweithrediad polisïau a chynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun. Bydd hyn yn bwydo'n uniongyrchol i'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) ac yn ei dro, fe'i defnyddir i lywio unrhyw adolygiadau Cynllun yn y dyfodol.

7.2 Amlinellwyd targedau, dangosyddion a phwyntiau sbardun yn y fframwaith monitro a nodir ym Mhennod 8. Os na ddiwellir targedau penodol, bydd pwyntiau sbardun yn cael eu gweithredu ac yn cael eu hymchwilio yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i sefydlu p'un a oes angen unrhyw gamau pellach e.e. adolygu polisïau neu adolygu'r Cynllun.

7.3 Mewn ymateb i ymholiad gan yr Arolygydd (DA.002), mae'r Cynghorau wedi ailedrych ar y fframwaith er mwyn gwella ei gyflwyniad (DA.010c). Mae'r Cynghorau'n barod i wneud mân newidiadau i'r Fframwaith Monitro er mwyn sicrhau ei fod yn darparu'r mecanwaith gorau posib i fonitro a chymryd mantais ar arfer gorau sy'n datblygu fel y'i hymgorfforir mewn Cynlluniau a fabwysiadwyd yn ddiweddar.

| | |
|---|---|
| **8.** | **Unrhyw faterion eraill** |

**3.1 Ymateb – Dim**

## Asedau Treftadaeth

| 1. | A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith digonol ar gyfer gwarchod asedau treftadaeth? |
|---|---|

**1.1** **Ymateb -** Ydy. Mae'r Cynghorau'n ystyried bod y Cynllun yn darparu fframwaith polisi digonol i amddiffyn asedau treftadaeth yn ardal y Cynllun. Ystyrir bod cynnwys Polisi PS17 a Pholisïau AT 1-AT 4 (yn amodol ar Newidiadau â Ffocws NF87-89), os yw'r Arolygydd o'r farn bod hynny'n dderbyniol a phriodol) yn rhoi blaenoriaeth arwyddocaol i asedau treftadaeth yng nghyd-destun cyflwyno gweledigaeth ac amcanion y Cynllun a'i fod yn unol â pholisi cenedlaethol a deddfwriaeth berthnasol.

| 2. | A yw'r Cynllun yn gyson â gofynion deddfwriaeth arall a'r polisi cynllunio cenedlaethol? |
|---|---|

**2.1** **Ymateb -** Ydy. Paratowyd y polisi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi cenedlaethol ac mae'n unol â gofynion yr hyn a ganlyn:

**a.** Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;

**b.** Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979

**c.** Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 8, Ionawr 2016 (PCC)

**d.** Cylchlythyr 60/96

**e.** Cylchlythyr 60/96

**f.** Cylchlythyr 1/98

| 3. | Unrhyw faterion Arall |
|---|---|

**3.1** **Ymateb –** Dim